## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad Parêd Pride Llandeilo ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Stryd Rhosmaen, Llandeilo sy'n ymestyn o'i chyffordd â Heol y Garreg Las hyd at ei chyffordd â Stryd y Brenin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 15 Mehefin 2024 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 12:00 hyd 12:30 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw. Nid oes angen unrhyw lwybrau eraill oherwydd caiff y darn o'r gefnffordd ei gau ar sail dreigl a chaniateir i draffig ddilyn yr orymdaith.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A483 TRUNK ROAD (RHOSMAEN STREET, LLANDEILO, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable the Llandeilo Pride Parade event to be held on or near the A483 trunk road at Llandeilo, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A483 trunk road known as Rhosmaen Street, Llandeilo that extends from its junction with Heol y Garreg Las to its junction with King Street.

The Order comes into force on 15 June 2024 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibition is expected to operate from 12:00 – 12:30 hours on that date. No alternative routes are necessary as traffic will be held under a rolling closure and allowed to follow the march.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government